# Rhosneigr

**Pellter**: 6.1km / 3.8 milltir
**Anhawster**: hawdd
**Amser cerdded**: 2 awr

Dim Camfeydd

Caffis a thoiledau yng nghanol y dref

Mae'r llwybr hwn yn dilyn palmentydd i mewn i'r dref ac yna'n dilyn y traeth a'r twyni cyn dychwelyd ar hyd llwybr tebyg.

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau.

1. Gadewch yr orsaf a throi i'r chwith gan ddilyn y palmant ar hyd y ffordd. Ewch heibio'r Clwb Golff a bydd y ffordd yn gwyro tua'r chwith. Dilynwch yr holl ffordd i lawr at dŵr y cloc yng nghanol y pentref. Fe welwch siopau a chaffis yn y fan yma. Croeswch yn syth wrth y tŵr a pharhau i lawr y stryd tuag at y môr. (Ar gyfer toiledau cyhoeddus, dilynwch yr arwydd i'r chwith ar ôl Sandy Mount House)
2. Bydd y ffordd yn arwain i lawr at y môr, ac yna'n gwyro i'r chwith. Dilynwch hon. Pan fydd y ffordd yn gwyro i'r chwith eto, ewch yn syth at y traeth.
3. Ar y traeth ar ôl i chi fynd o amgylch y mur, edrychwch i'r chwith ac fe welwch pont droed fechan. Ewch yn eich blaen i fyny a thros y bont at y twyni tywod. O'r fan hon, mae nifer o lwybrau ar draws y twyni i'w harchwilio neu gallwch dorri'r siwrnai at y traeth ac ar ei hyd. Mae golygfeydd gwych i'w cael ar bob un.
4. Pan gyrhaeddwch y tai ar ben draw'r traeth/twyni, trowch i'r chwith gan ddilyn y trac i gwrdd â'r ffordd. (Bydd y carafanau ar y dde i chi).
5. Pan gyrhaeddwch y ffordd, dilynwch y palmant ar y chwith yn ôl i'r pentref. Byddwch chi'n cyrraedd yn ôl wrth y cloc. Trowch i'r dde i ddychwelyd yr un ffordd i'r orsaf.




Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023